

---

## Trosolwg

Mae'r uned hon yn ymwneud â rheoli prosiectau cyfieithu. Mae hyn yn golygu rheoli nid yn unig eich gwaith eich hun ond hefyd waith pob eraill sy'n gysylltiedig â'r prosiect, megis cyfieithydd/cyfieithwyr, dylunwyr a rhaglenwyr. Rydych chi'n dilyn prosiect o'r cysylltiad cyntaf un â darpar gleient hyd at ei weithredu a'i werthuso. Rydych chi'n cadarnhau 'darlun llawn' y prosiect, h.y. beth yw bwriad y cyfieithiad ac ym mha gyd-destun ac amgylchiadau y'i defnyddir. Rydych chi'n llunio rhaglenni gwaith realistig a chost-ffeithiol ac yn arolygu cynnydd yn erbyn cerrig milltir. Rydych chi'n cyfathrebu'n effeithiol â chleientiaid, cyfieithwyr a phartneriaid eraill sy'n gysylltiedig â'r prosiect, megis tîm cynhyrchu'r cleient. Rydych chi'n gwerthuso'r prosiect ac yn defnyddio eich casgliadau i wella cyflenwad y gwasanaethau cyfieithu ymhellach.

Cymeradwyir yr uned ar gyfer pobl sy'n gweithio fel cyfieithwyr ar lefel broffesiynol neu ar y lefel broffesiynol uwch y mae eu swydd yn gofyn eu bod yn rheoli prosiectau a gwasanaethau cyfieithu.

# CFATR1W

## Rheoli prosiectau cyfieithu

---

### Meini prawf perfformiad

#### *Rhaid i chi allu:*

- P1 rydych chi'n cadarnhau natur y prosiect, y cyd-destun ar gyfer defnyddio'r cyfieithiad, ei ddarllenwyr arfaethedig a'r amser a ddisgwyllir i'w gwblhau
- P2 rydych chi'n trafod pris ac amserlen realistig ar gyfer cwblhau'r prosiect
- P3 rydych chi'n clustnodi adnoddau realistig a chost-effeithiol i wneud y gwaith, gan gynnwys y cyfuniad iawn o gyfieithwyr proffesiynol a chyfieithwyr proffesiynol uwch
- P4 rydych chi'n llunio cynllun i reoli llif y gwaith, gan gynnwys cynhyrchu'r testun sydd i'w gyfieithu, unrhyw wirio a diwygio sydd i'w gwneud yn fewnol a chan y cleient, llunwedd, fformatio a chau pen y mwdwl yn derfynol
- P5 rydych chi'n gosod targedau clir i orffen a chyflenwi'r gwaith ac yn penderfynu pwy fydd yn gwneud beth erbyn dyddiadau penodol
- P6 rydych chi'n cynnal asesiad risg i ddarganfod unrhyw wendidau yng nghynllun y prosiect ac yn rhoi mesurau ar waith i oresgyn y rhain
- P7 unwaith mae'r prosiect wedi dechrau, rydych chi'n arolygu cynnydd yn ôl cerrig milltir yn rheolaidd ac yn gweithredu os bydd problemau'n codi
- P8 rydych chi'n sicrhau y cwrddir â gofynion y cleient, gan gynnwys gofynion lleoleiddio a fformatio
- P9 rydych chi'n rhoi gwybod i'r cleient yn gyson ynglŷn â sut mae pethau'n dod yn eu blaen
- P10 rydych chi'n sicrhau bod gan y cleient ddigon o wybodaeth i reoli'r broses gynhyrchu y mae'r cyfieithiad yn rhan ohoni
- P11 os bydd mwy nag un cyfieithydd yn ymhél â'r prosiect, rydych chi'n sicrhau bod arferion, geirfa ac arddull yn gyson o fewn ac ar draws ieithoedd
- P12 rydych chi'n sicrhau bod y testun a gyfieithwyd yn cael ei adolygu a'i ddiwygio'n fewnol cyn ei fod yn cyrraedd y cleient
- P13 rydych chi'n rhoi cyfle i gleientiaid gynnal eu harolwg eu hunain
- P14 rydych chi'n gwerthuso'r prosiect ar ôl iddo gael ei gwblhau ac yn rhoi adborth ynglŷn ag unrhyw sylwadau am ansawdd y cyfieithiad a gwaith tîm i'r cyfieithwyr
- P15 rydych chi'n defnyddio canlyniadau'r gwerthusiad i wella cyflenwad y gwasanaethau cyfieithu ymhellach, e.e. trwy newid dulliau gweithredu a diweddarau rhestrau

# CFATR1W

## Rheoli prosiectau cyfieithu

---

### Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

- K1 dulliau i gynllunio, costio a gosod cerrig milltir ar gyfer prosiectau
- K2 dulliau i fonitro cyflenwad ac i gymryd camau effeithiol os bydd oedi neu broblemau
- K3 prosesau i sicrhau bod y prosiect yn cael ei gwblhau i safon sy'n gyson
- K4 strategaethau i fonitro'r defnydd o adnoddau a chostau
- K5 dulliau i werthuso llwyddiant y prosiect yn nhermau effeithiolrwydd yn erbyn targedau gosod
- K6 strategaethau i ddefnyddio canlyniadau gwerthusiadau i wella prosesau sicrwydd ansawdd a dogfennu

# CFATR1W

## Rheoli prosiectau cyfieithu

---

### Gwybodaeth ychwanegol

#### Cysylltiadau â SGC eraill

Mae'r uned hon yn ategu pob uned arall o fewn cyfres y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol mewn Cyfieithu.

Mae'r uned hon yn ymwneud â rheoli prosiectau cyfieithu sy'n cynnwys timau o bobl. Ar gyfer rheoli tasgau a gyflawnir gan y cyfieithydd unigol, gweler unedau PTra 1–4.

#### Cysylltiadau Allanol

Er mwyn gweld trosolwg o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol mewn Cyfieithu, egwyddorion parthed arfer proffesiynol a rhestr o dermau arbenigol, ewch at [www.cilt.org.uk/home/standards\\_and\\_qualifications/uk\\_occupational\\_standards/translation.aspx](http://www.cilt.org.uk/home/standards_and_qualifications/uk_occupational_standards/translation.aspx).

# CFATR1W

## Rheoli prosiectau cyfieithu

---

**Datblygwyd gan** CFA Business Skills @ Work

---

**Fersiwn rhif** 1

---

**Dyddiad cymeradwyo** Tachwedd 2009

---

**Dyddiad adolygu a awgrymir** Tachwedd 2011

---

**Dilysrwydd** Cyfredol

---

**Statws** Gwreiddiol

---

**Sefydliad cychwynnol** CILT

---

**RCU gwreiddiol** CFATR1W

---

**Galwedigaethau perthnasol** Ieithoedd, llenyddiaeth a diwylliannau Gwledydd Prydain; Ieithoedd, llenyddiaeth a diwylliannau eraill; Galwedigaethau Gweinyddol ac Ysgrifenyddol; Cyffredinol

---

**Cyfes/Set** Cyfieithu

---

**Geiriau Allweddol** Cyfieithu